

Diweddariadaur wythnos o WCVA

29 Gorffennaf 2019

Helo, a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Mae gennym lawer o newyddion cyffrous i'w gyhoeddi yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst eleni. Cadwch lygad ar [@WCVACymru](#) i ddarganfod beth rydym wedi bod wrthi'n ei wneud...neu os ydych chi'n ymweld â'r Steddfod, dewch draw i'n gweld yn stondin 518!

Oes gennych chi arbenigedd cymunedol? Mae tîm Grantiau WCVA yn chwilio am aelodau panel gwirfoddol i adolygu ceisiadau i [Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi](#).

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi eto wythnos nesaf!

Oes gennych chi arbenigedd cymunedol?

Mae WCVA yn chwilio am aelodau gwirfoddol sydd ag arbenigedd mewn cymunedau i ymuno â Phanel Cyngori Arbenigol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

Cyllid diweddaraf

Rhagor o gyfleoedd am Gyllid Cynhwysiant Gweithredol tan 2022

Mae WCVA yn falch o gadarnhau bod cyfnod nesaf cyllid Cynhwysiant Gweithredol nawr ar agor i geisiadau ac y bydd yn parhau ar agor i geisiadau am y blynyddoedd nesaf.

Cist Gymunedol Chwaraeon Cymru

Mae'r Gist Gymunedol yn darparu grantiau gwerth hyd at £1,500 o fewn unrhyw 12 mis tuag at gynyddu cyfranogiad a gwella safonau.

Gwaed a Thrawsblannu GIG – Cynllun Buddsoddi Cymuned

Gall mudiadau ymgeisio am gyllid i gymunedau lleol ymgymryd yn bositif â rhoi organnau o fewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig, du, Asiaidd, neu gymysg eu hil.

Cronfa Grant Cychod Achub

Elusennau wedi'u cofrestru yn y DU sy'n gweithredu fel cychod achub yn y DU.

Yn cyflwyno siarter wirfoddoli ddiwygiedig

Mae WCVA a TUC Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar siarter ddrafft i egluro a chryfhau'r berthynas rhwng staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Dyma Fiona Liddell yn egluro pam.

Hyfforddiant a digwyddiadau

Dwyieithrwydd ar Waith

Hyfforddiant datblygu gwasanaethau dwyieithog i'r trydydd sector.

[10 Hydref 2019, Aberystwyth](#)

[03 Mawrth 2020, Caerdydd](#)

[20 Mai 2020, Bangor](#)

Cyngor ac arweiniad

Cynlluniau'r Comisiwn Elusennau i'w gwneud yn haws chwythu'r chwiban

Llinell gyngor newydd i'r rheini sy'n chwythu'r chwiban mewn elusennau

Yr Ymchwiliad i Oxfam GB: Gwersi i Ymddiriedolwyr Elusennau

Cyhoeddodd y Comisiwn Elusennau ganfyddiadau ei ymchwiliad i Oxfam GB yn ddiweddar.

Polisi a prosiectau

Prosiect Ewropeaidd yn fuddugol yng Ngwobrau Rhagoriaeth Ieuencid 2019

Mae prosiect a ariennir gan gyllid Ewropeaidd drwy Gronfa Cynhwysiant Gweithredol WCVA wedi ennill y categori Prosiect Gwaith Ieuencid yn y Gwobrau Rhagoriaeth Ieuencid 2019.

Cynllun mentora er mwyn cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus nawr ar agor

Mae'r Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig wedi agor eu hail rownd o'r Cynllun Mentora Llwybrau BAME i mewn i Fywyd Cyhoeddus.